**PWYLLGOR SAFONAU**
**5 MAWRTH 2018**

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 5 Mawrth 2018.

**YN BRESENNOL: Edward Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau Cyfetholedig:
Rob Dewey, Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 59. DATGANIADAU CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 60. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2018.

Tynnodd Mrs. Phillipa Earlam sylw at anghywirdeb o ran ei henw dan yr eitem Goddefebau.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 61. GODDEFEBAU

Darparodd y Dirprwy Swyddog Monitro wybodaeth gefndir am ddau gais am oddefeb gan y Cynghorydd Sir Mike Peers a gafwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen hon. Eglurodd nad y Cynghorydd Peers oedd yr Aelod lleol ar y ceisiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom nad oedd am gymryd rhan yn yr eitem gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

Ceisiadau cynllunio 057514 a 057295 yn Neuadd Hawkesbury, Bwcle

Eglurwyd bod y Cynghorydd Peers yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Gymunedol Hawkesbury a'i fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a fyddai'n ystyried y ceisiadau yn ddiweddarach yn yr wythnos. Ei gais oedd cymryd rhan yn y drafodaeth i godi pryderon am fynediad cyfyngedig gan gerbydau'r gwasanaethau brys i gyfleusterau gerllaw ac i bleidleisio.

Eglurodd Cynghorydd Woolley, er bod ganddo rywfaint o wybodaeth am yr adeilad, nid oedd ganddo fuddiant breintiedig ar y ceisiadau.

Holodd Mr. Rob Dewey am y rheswm pam roedd y Cynghorydd Peers yn cyfeirio at baragraff (c) sy'n ymwneud â goblygiadau cydbwysedd gwleidyddol posibl, yn ogystal â pharagraff (e) ac (f). Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn bosibl bod y Cynghorydd Peers wedi teimlo y gallai fod mater, o ystyried trefniadau cworwm y Pwyllgor Cynllunio yng Nghymru a gallai'r Pwyllgor ystyried a ddylid cynnwys paragraff (c) fel y sail ar gyfer y penderfyniad ai peidio.

Roedd y Cadeirydd yn cofio nad oedd y Pwyllgor wedi rhoi hawliau pleidleisio ar oddefebau tebyg yn y gorffennol. Gofynnodd a oedd y Pwyllgor am roi caniatâd i siarad a chyfathrebu yn ysgrifenedig ond nid i bleidleisio. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Dirprwy Swyddog Monitro am eglurhad am yr amser byddai'r Cynghorydd Peers yn ei gael i siarad dan yr oddefeb, gan fod ganddo hawl i siarad am dri munud mewn unrhyw achos. Siaradodd y Cynghorydd Woolley o blaid rhoi pum munud o amser siarad oherwydd y materion cymhleth oedd yn ymwneud â'r cais.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor am roi goddefeb dan baragraffau (e) ac (f) yn unig, i siarad am bum munud a chyfathrebu yn ysgrifenedig gyda swyddogion, ond byddai rhaid iddo adael y cyfarfod cyn y bleidlais. Byddai'r oddefeb yn berthnasol am 12 mis a byddai'n cynnwys ceisiadau tebyg fel a benderfynwyd gan y Swyddog Monitro.

O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar y cynnig. Gofynnodd y Cynghorydd Heesom bod ei benderfyniad i ymatal yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

<u>Cais cynllunio 057689 ar Ffordd Alltami, Bwcle</u>

Fel aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, roedd y Cynghorydd Peers yn ceisio goddefeb i siarad a phleidleisio ar y cais, ac os byddai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n arwain at gyfraniadau ariannol tuag at addysg yn Ysgol Gynradd Mountain Lane lle roedd yn Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Gwnaeth y Swyddog Monitro lunio cymhariaeth gyda chais a gyflwynwyd yn 2014 gan y cyn Gynghorydd Alison Halford, lle roedd goddefeb wedi'i roi i siarad, pleidleisio a chyfathrebu yn ysgrifenedig. Roedd y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud ar y sail y byddai'r ysgol berthnasol yn cael mantais yn hytrach na'r Cynghorydd Halford. Nid oedd y penderfyniad a gyhoeddwyd yn nodi faint o amser a roddwyd i siarad. O ran y cais presennol, byddai'r Cynghorydd Peers yn gallu siarad am dri munud, sef yr un fath ag aelod o'r cyhoedd, oni bai bod y Pwyllgor yn cytuno ar bum munud.

Holodd Mr. Dewey o ran y paragraffau perthnasol roedd goddefeb yn cael ei geisio danynt ond dywedodd y byddai'n cefnogi rhoi goddefeb heb bleidleisio oherwydd gallai'r sefydliad roedd y Cynghorydd Peers yn ei gynrychioli gael budd. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Woolley.

Yn ystod trafodaeth, rhoddodd y Swyddog Monitro eglurhad am gyfraniadau ariannol addysgol a oedd yn codi o geisiadau cynllunio.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Pwyllgor am roi goddefeb dan baragraffau (e) ac (f) yn unig, i siarad am bum munud a chyfathrebu yn ysgrifenedig gyda swyddogion, ond byddai rhaid gadael y cyfarfod cyn y bleidlais. Byddai'r oddefeb yn berthnasol am 12 mis a byddai'n cynnwys ceisiadau tebyg fel a benderfynwyd gan y Swyddog Monitro.

O'i roi i bleidlais, cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig. Gofynnodd y Cynghorydd Heesom bod ei benderfyniad i ymatal yn cael ei gofnodi yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Mike Peers o dan baragraffau (e) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad am bum munud yn y Pwyllgor Cynllunio a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar gais cynllunio 057514 a 057295, neu unrhyw gais sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg. Mae'r Cynghorydd Peers i adael y cyfarfod ar ôl siarad, cyn trafodaeth a phleidlais ar y cais. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 5 Mawrth 2019; a

(b) Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Sir Mike Peers o dan baragraffau (e) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 i siarad am bum munud yn y Pwyllgor Cynllunio a gwneud sylwadau ysgrifenedig ar gais cynllunio 057689, neu unrhyw gais sydd, ym marn y Swyddog Monitro, yn debyg. Mae'r Cynghorydd Peers i adael y cyfarfod ar ôl siarad, cyn trafodaeth a phleidlais ar y cais. Mae'r oddefeb i'w rhoi am 12 mis, gan ddod i ben ar 5 Mawrth 2019.

## 62. YMWELIADAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Gwnaeth y Swyddog Monitro gyflwyno adroddiad i ystyried y dull i aelodau annibynnol y Pwyllgor gynnal ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned, fel a awgrymwyd yng nghyfarfod mis Ionawr. Yn dilyn cyfathrebu â Chynghorau Tref a Chymuned, dim ond un Cyngor Tref oedd wedi rhoi ymateb i groesawu'r ymweliadau. Ar y sail honno, gofynnwyd i aelodau roi ystyriaeth i p'un a oeddent am ohirio'r eitem wrth aros am ymgynghoriad pellach, neu fwrw ymlaen a rhoi ystyriaeth i'r canllawiau drafft yn yr adroddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd Woolley fod y Pwyllgor yn derbyn yr argymhelliad a'r canllawiau fel a nodir yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Heesom.

Eglurodd Mrs. Julia Hughes mai nod yr ymweliadau oedd helpu i wella safonau a sicrhau bod gan aelodau'r cyhoedd fynediad da i'w cyfarfodydd lleol. Yr arfer a gaiff ei weithredu gan gyngor cyfagos oedd nid rhag-gyhoeddi rota ar gyfer yr ymweliadau, ond darparu rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd cyngor i aelodau annibynnol sy'n cymryd rhan. Yna byddent yn cysylltu â'r Clercod a chyflwyno eu hunain, gan egluro eu bwriad i fynychu cyfarfod i arsylwi yn hytrach na chymryd rhan (yr un fath ag aelod o'r cyhoedd) a gadael y cyfarfod cyn

unrhyw eitemau eithriedig. Pe bai gofyn i'r aelod gyflwyno ei hun, defnyddir sgript gyffredin i egluro pwrpas yr ymweliad o ran codi ymwybyddiaeth o’r Cod Ymddygiad a chefnogi cynghorau i ddeall eu rhwymedigaethau. Bydd adborth cyffredin ar lafar yn cael ei adrodd yn rheolaidd i’r Pwyllgor Safonau ar faterion fel mynediad i raglenni, materion gweithdrefnol, cyfranogiad aelodau, rhoi enghreifftiau o arfer da ac amlygu anghenion hyfforddiant.

Awgrymodd Mrs. Phillipa Earlam dylid cyhoeddi rhestr wirio i ddangos tryloywder ond roedd y Cynghorydd Johnson yn pryderu y gellid ei ddehongli fel arolwg. Teimlai ei bod yn bwysig hyrwyddo’r ymweliadau fel gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac aeth ymlaen i ofyn a fyddai gwrthdaro buddiannau ar gyfer Aelodau’r Pwyllgor a oedd ar Gynghorau Tref a Chymuned hefyd. Dywedodd y Swyddog Monitro na fyddai angen i’r Aelodau hyn ddatgan cysylltiad personol.

Awgrymodd y Swyddog Monitro ei fod yn ysgrifennu at Glercod i egluro natur yr ymweliadau o ran cymryd nodiadau o ganfyddiadau ac edrych ar brosesau sy’n arwain at ymddygiad moesegol da a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Trafododd Aelodau sut dylid adrodd adborth yn ôl i’r Pwyllgor. Roedd Mrs. Hughes yn teimlo y dylai adborth llafar fod yn gyffredinol, gyda’r pwyntiau allweddol wedi’u cynnwys yn y cofnodion a oedd yn ddogfen gyhoeddus. Dywedodd Mr. Rob Dewey y gallai adborth ddangos nifer y cynghorau yr ymwelwyd â nhw a hefyd y prif ganfyddiadau.

Awgrymodd Cynghorydd Johnson y gellid arsylwi’r dull a gymerwyd gan y cyngor cyfagos a’i addasu i’w ddefnyddio gan Sir y Fflint. Dywedwyd bod aelodau yn gallu gweld cofnodion a gyhoeddwyd gan y cyngor hwnnw i weld sut roedd adborth ar lafar yn cael ei adrodd.

Cynigiodd Mrs. Hughes ddiwygiad i’r cynnig cadarn gan y Cynghorydd Woolley nad oedd y rota ar gyfer ymweliadau yn cael ei gyhoeddi a bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cael gwybod yn unigol gan aelodau sy’n cynnal yr ymweliadau. Eiliwyd hyn gan Mr. Ken Molyneux. Nodwyd byddai angen i hyn gael ei egluro yn y canllawiau a nodir yn yr adroddiad, a oedd wedi’u cytuno gan y Pwyllgor. O'i roi i’r bleidlais, derbyniwyd y gwelliant.

Yn dilyn trafodaeth bellach, gwnaeth y Swyddog Monitro grynhoi’r farn, sef na fyddai adborth yn cael ei roi gan yr aelodau annibynnol yn ystod yr ymweliadau a byddai adborth ar lafar yn cael ei adrodd i’r Pwyllgor Safonau er mwyn i sylwadau allu cael eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno i Gynghorau Tref a Chymuned. Cafodd y diwygiad pellach hwn ei gynnig gan Mr. Dewey a’i eilio gan y Cynghorydd Woolley. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar y gwelliant.

Cafodd y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Woolley, fel y’i diwygiwyd, ei roi i bleidlais, a’i gytuno.

Gofynnodd y Cynghorydd Johnson a oedd yr ymweliadau yn destun y cynllun lwfans taliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig. Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd Heesom fod y swyddogion yn adrodd yn ôl ar y goblygiadau ariannol a chefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod canllawiau ym mharagraff 1.03 yr adroddiad yn cael ei diwygio i adlewyrchu:

- Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor sydd am gymryd rhan yn cael dyddiadau cyfarfodydd a manylion cyswllt i'w galluogi i roi gwybod i Glercod o flaen llaw am ymweliadau;
- na ddylai rota ymweliadau gael ei gyhoeddi;
- dylai'r aelod roi gwybod i Glerc y cyngor am ei fwriad i ymweld mewn cyfarfod penodol;
- bod pawb sy'n bresennol yn cyflwyno eu hunain i'r Clerc pan fyddant yn cyrraedd y cyfarfod ac yna'n eistedd yn yr oriel gyhoeddus;
- na ddylai'r mynychwr siarad yn y cyfarfod oni bai ei fod yn cael ei wahodd i wneud hynny, a dim ond natur a phwrpas y rhaglen o ymweliadau y dylai eu hegluro;
- dylai'r mynychwr wrthod rhoi cyngor penodol am faterion dan y cod fel datgan cysylltiad, a dylai gyfeirio unrhyw geisiadau o'r fath at y Clerc, y Swyddog Monitro, neu'r Dirprwy Swyddog Monitro yn lle hynny;
- dylai adborth llafar gael ei adrodd i'r Pwyllgor i alluogi sylwadau i gael eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno i Gynghorau Tref a Chymuned; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cael adroddiad gan swyddogion am oblygiadau ariannol gwneud yr ymweliadau yn ddyletswydd swyddogol at ddibenion lwfansau aelodau etholedig.

**63. TROSOLWG O GWYNION MOESEGOL**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad am gwynion am achosion honedig o dorri cod ymddygiad yr aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd cyfanswm o naw cwyn wedi dod i law yn 2016/17 a chafwyd dau yn 2017/18 hyd yma.

Gan fod yr adroddiad i fod yn ymddangos yn rheolaidd ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gofynnodd Mrs. Julia Hughes a ellid ei wella i ddangos yr Awdurdod, ffynhonnell y gŵyn a chanlyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac o ganlyniad, byddai angen i'r adroddiad gael ei ystyried mewn sesiwn gaeedig.

Roedd Cynghorydd Heesom yn teimlo y gallai'r wybodaeth yn yr adroddiad gael ei hymestyn wrth ei chadw fel dogfen gyhoeddus. Cefnogwyd hyn gan y Cynghorydd Woolley.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y gallai'r adroddiad nodi Cyngor Tref neu Gymuned '1', '2' ac ati, ac Aelod 'a', 'b' ac ati, i wahaniaethu'r math o gyngor a sawl sy'n cwyno, heb eu hadnabod. O'i roi i bleidlais, cytunwyd ar y gwelliant.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod nifer a mathau o gwynion yn cael eu nodi; a

(b) Bod adroddiadau'r dyfodol yn darparu eglurder ar wahanol gynghorau ac aelodau gan ddefnyddio ffigyrau a llythrennau i wahaniaethu rhyngddynt heb eu hadnabod.

**64. LLYFR ACHOSION OBMWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Darparodd y Dirprwy Swyddog Monitro drosolwg o ganlyniadau cwynion a gafodd eu hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ddangosir yn rhifyn mwyaf diweddar Llyfr Achosion yr Ombwdsmon. Roedd dolen i'r Llyfr Achosion wedi'i chynnwys ar y rhaglen er gwybodaeth.

**65. CYFARFOD FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cytunodd y Swyddog Monitro i gynghori'r Pwyllgor am y dyddiad a gytunwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm a oedd i gael ei gynnal ym mis Mai yng Nghyngor Gwynedd. Er mai'r arfer arferol oedd gwahodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau, roedd pob aelod o'r awdurdod cynnal yn cael mynychu os oeddent yn dymuno.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd aelodau i awgrymu pynciau ar gyfer rhaglen y cyfarfod.

Cyfeiriodd Mrs. Phillipa Earlam at drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol a gofynnodd am eitem ar arferion/protocolau ar gyfryngau cymdeithasol a weithredir gan gynghorau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyddiad y cyfarfod; a

(b) Bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno eitem rhaglen i ymgynghori ar arferion/protocolau cyfryngau cymdeithasol a gaiff eu gweithredu gan gynghorau eraill.

**66. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Byddai'r rhaglen o sesiynau hyfforddiant a nodwyd gan y Dirprwy Swyddog Monitro cyn dechrau'r cyfarfod yn cael ei threfnu.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at drafodaeth am y protocol cyfryngau cymdeithasol yn y cyfarfod blaenorol a dywedodd eu bod yn ceisio adborth gan y swyddogion perthnasol cyn cyflwyno sylwadau i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai eitem ar ganlyniad canllawiau CLILC wedi'u diweddaru yn cael ei adrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd Cynghorydd Heesom bod y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw oblygiadau yn y dyfodol sy'n codi o newidiadau o ran diogelwch gwybodaeth.

Fel pwynt cywirdeb, nodwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn cynnal Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Diweddaru'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 67. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 8.10pm)

…………………………
**Cadeirydd**